

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf : MA JM 5235 19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

7 Ionawr 2020

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd tuag at sicrhau data dibynadwy ar wasanaethau cymdeithasol, mater a amlygwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ac a oedd yn destun argymhellion yn ystod proses graffu Cam 1 ar y Bil.

Roedd fy llythyr dyddiedig 5 Ebrill 2019 yn amlinellu'r materion sy'n codi mewn perthynas â sefydlu amcangyfrif o nifer presennol yr atgyfeiriadau yn ymwneud â chosb resymol sy'n dod i law adrannau gwasanaethau cymdeithasol gan ddefnyddio data sydd eisoes yn bodoli.

Nid yw adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn casglu data ar hyn o bryd ar nifer yr atgyfeiriadau o achosion o riant neu berson in loco parentis yn cosbi plentyn yn gorfforol. Nid oedd modd cynnwys amcangyfrif dibynadwy o nifer yr atgyfeiriadau yn y fersiwn wreiddiol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol pan gyflwynwyd y Bil.

Mewn ymateb i argymhellion a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cyllid, sylwais fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda nifer fach o awdurdodau lleol i geisio cael amcangyfrif o nifer yr atgyfeiriadau presennol at wasanaethau cymdeithasol, ar sail y fethodoleg a ddefnyddir gan yr heddlu.

Pe bai modd cael amcangyfrif cymharol ddibynadwy o niferoedd gan ddefnyddio'r fethodoleg honno, roedd swyddogion yn bwriadu defnyddio'r amcangyfrif hwnnw a'r gost uned a amlinellwyd yn y Memorandwm Esboniadol a osodwyd pan gyflwynwyd y Bil i ddarparu amcangyfrif o gostau presennol atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol. Er bod data'r heddlu, a'r cynnydd posib a amcangyfrifir yn nifer yr adroddiadau i'r heddlu, yn ddarostyngedig i gafeatau sydd wedi'u hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol, roeddent yn cael eu hystyried yn ddigon dibynadwy i'w cynnwys fel syniad o'r effaith bosib.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol bellach wedi cwblhau'r gwaith ar ddata gwasanaethau cymdeithasol. Ceir nodyn technegol wedi'i gymeradwyo gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru ynghlwm. Mae'n amlinellu'r fethodoleg a'r canlyniadau a gafwyd.

Fel y gwelir yn y nodyn, mae'n amlwg bod y data gwasanaethau cymdeithasol a gasglwyd yn ddarostyngedig i sawl cafeat ychwanegol nad ydynt yn berthnasol i ddata'r heddlu. Er enghraifft, roedd ond yn bosib casglu digon o ddata cymharol i gynhyrchu'r amcangyfrifon hyn ar gyfer tri o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, tra bod yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys data gan bob un o'r pedwar llu heddlu yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, mae'n debyg y bydd nifer fawr o achosion o ddyblygu cofnodion atgyfeiriadau mewn data gwasanaethau cymdeithasol, oherwydd bod pob atgyfeiriad yn cael ei 'glonio' a'i gofnodi yn erbyn unrhyw blentyn arall sy'n cael ei ystyried mewn perygl oherwydd yr un digwyddiad (er enghraifft brodyr a chwiorydd). Mae hynny'n golygu nad yw bob amser yn bosibl adnabod nifer yr atgyfeiriadau gwreiddiol a ddaeth i law. Ar ben hynny, mae prosesau a systemau cyfrifiadurol yn cael eu defnyddio'n wahanol ar draws timau gwasanaethau plant i ddal data am atgyfeiriadau.

Barn y Prif Ystadegydd, yn sgil y cafeatau, yw nad oes modd defnyddio'r canlyniadau i ddarparu amcangyfrif ar gyfer atgyfeiriadau o rieni neu berson in loco parentis yn cosbi plentyn yn gorfforol ar lefel Cymru gyfan.

Yn anffodus, am y rhesymau hyn, nid oes modd darparu amcangyfrif digon cadarn o niferoedd presennol yr atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol at ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. Ni fyddai'n deg i Aelodau'r Cynulliad a'r gwaith craffu ehangach i gyflwyno ffigurau nad ydynt yn addas i'r diben ac na fyddai'n adlewyrchiad cywir o effaith debygol y ddeddfwriaeth.


Fel y gwyddoch, ni fyddai amcangyfrif o'r fath wedi disodli'r angen i gasglu data ar gyfer llinell sylfaen gadarnach cyn cychwyn y Ddeddf – diben y gwaith hwn oedd darparu amcangyfrif o atgyfeiriadau gwasanaethau cymdeithasol i'w gynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae'n bwysig i ni gael cynlluniau priodol yn eu lle i fonitro effaith y ddeddfwriaeth – os bydd yn cael ei phasio gan y Senedd – pan fydd wedi'i rhoi ar waith. O ganlyniad, mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar Gasglu a Monitro Data, sy'n gweithio o dan y Grŵp Gweithredu Strategol, yn parhau i ddatblygu dull o gasglu data ar atgyfeiriadau perthnasol at wasanaethau cymdeithasol, fel bod modd casglu data o'r fath cyn cychwyn y Ddeddf er mwyn darparu llinell sylfaen gadarnach, a monitro'r effaith ar ôl cychwyn y Ddeddf.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto i amlinellu'r newidiadau yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil, a fydd yn cael ei osod cyn trafodion Cam 3.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Pwyllgorau wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd.

Yn gywir



Julie Morgan AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Nodyn Technegol i Bwyllgorau Craffu

Data gwasanaethau cymdeithasol – achosion a atgyfeirir at wasanaethau plant lle mae plant wedi cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu'r rhai a oedd yn gweithredu in loco parentis

Ymarfer i gasglu data gwasanaethau cymdeithasol

1. Nid yw prosesau casglu data presennol wedi ein galluogi i lunio amcangyfrif cadarn o nifer bresennol yr achosion o gosbi corfforol a atgyfeirir at wasanaethau plant yng Nghymru am fod plant wedi cael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu'r rhai a oedd yn gweithredu in loco parentis. Y rheswm dros hyn yw nad yw'n ofynnol cofnodi'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Ar gais Llywodraeth Cymru mae nifer o dimau gwasanaethau cymdeithasol wedi cynnal archwiliad o atgyfeiriadau a gofnodwyd ar gyfer plant. Y bwriad oedd y byddai'r data yn rhoi amcangyfrif amodol i Lywodraeth Cymru o nifer yr atgyfeiriadau presennol at wasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â diddymu amddiffyniad cosb resymol, er mwyn llywio'r asesiad effaith rheoleiddiol.
2. Ni fyddai'r amcangyfrif hwn yn disodli'r angen i gasglu data ar gyfer llinell sylfaen fwy cadarn cyn i'r ddeddfwriaeth gychwyn; ni fyddai ond yn rhoi amcangyfrif at ddibenion yr asesiad o'r effaith y mae'n ofynnol ei osod gerbron y Cynulliad ochr yn ochr â'r Bil.

Methodoleg

3. I ddechrau, cysylltwyd â nifer o dimau Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru er mwyn ystyried a allent atgynhyrchu'r fethodoleg a ddefnyddir gan yr heddlu i amcangyfrif nifer yr atgyfeiriadau at Wasanaethau Plant. Roedd ffactorau megis pwysau ar amser ac adnoddau yn ogystal â galluoedd systemau yn golygu mai dim ond pump a allai ddatblygu'r gwaith cychwynnol.
4. Fel cam cyntaf, nodwyd cyfanswm yr atgyfeiriadau at/cysylltiadau â Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn cynnwys unrhyw atgyfeiriadau at/cysylltiadau â Gwasanaethau Plant gan y cyhoedd neu weithwyr proffesiynol megis yr heddlu, athrawon, ymwelwyr iechyd ac ati, a gallent ymwneud ag unrhyw agwedd ar bryder am blant. Mae hynny'n cynnwys atgyfeiriadau sydd wedi'u nodi ar gofnod plant y gallai fod pryderon amdanynt. Er enghraifft, plant sydd wedi'u cosbi'n gorfforol yn ogystal â phlant eraill y bernir eu bod mewn perygl (megis chwaer neu frawd i blant sydd wedi'u cosbi'n gorfforol). Fel canlyniad, mae'n debygol y bydd llawer o ddyblygiadau.
5. Cynhaliwyd chwiliad geiriau allweddol wedyn er mwyn nodi pob atgyfeiriad a oedd yn cynnwys geiriau a oedd yn ymwneud â chosb gorfforol, megis: smac, bwrw, ceryddu, cosbi.
6. Mewn tri o'r awdurdodau hyn, roedd yn bosibl i gyfran o'r canlyniadau gael eu harchwilio â llaw wedyn er mwyn nodi faint ohonynt a oedd yn cyfeirio mewn gwirionedd at gosbi corfforol gan rieni.

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Canlyniadau

7. Ar hyn o bryd mae tri awdurdod wedi cwblhau'r gwaith hwn, gan gynnwys adolygiad llaw o'r achosion:
 - nododd un awdurdod lleol 7,945 o achosion lle roedd atgyfeiriad/cyswllt wedi'i nodi ar gofnod plentyn mewn blwyddyn. Roedd un o bob pump o'r achosion hyn yn cynnwys geiriau allweddol a oedd yn ymwneud â chosb gorfforol. Yn dilyn archwiliad llaw o sampl o'r atgyfeiriadau, rydym yn amcangyfrif bod tua 540 (6.7%) o gyfanswm yr achosion o bryder a gofnodwyd yn ymwneud â chosbi plant yn gorfforol (gan gynnwys dyblygiadau).
 - nododd ail awdurdod lleol tua 7,500 o achosion lle roedd atgyfeiriad/cyswllt wedi'i nodi ar gofnod plentyn mewn blwyddyn. Roedd un o bob 10 o'r achosion hyn yn cynnwys geiriau allweddol a oedd yn ymwneud â chosb gorfforol. Yn dilyn archwiliad llaw o sampl o'r atgyfeiriadau, rydym yn amcangyfrif bod tua 189 (2.5%) o gyfanswm yr achosion o bryder a gofnodwyd yn ymwneud â chosbi plant yn gorfforol (gan gynnwys dyblygiadau).
 - nododd y trydydd awdurdod lleol 2,682 o achosion lle roedd atgyfeiriad/cyswllt wedi'i nodi ar gofnod plentyn mewn blwyddyn. O'r atgyfeiriadau hyn roedd 167 (6.2%) yn cynnwys geiriau a oedd yn ymwneud â smacio. Roedd yr awdurdod lleol hwn yn gallu nodi a dileu atgyfeiriadau dyblyg a oedd wedi'u nodi ar gofnodion chwiorydd a brodyr, ac felly roedd 102 (60%) o'r rhain wedi'u dileu. Yn dilyn archwiliad llaw o sampl o'r atgyfeiriadau, rydym yn amcangyfrif bod gan wasanaethau plant yr awdurdod lleol hwn 24 o gysylltiadau unigol mewn perthynas â chosbi plant mewn blwyddyn. Noder na ellir dangos hyn fel cyfran o gyfanswm eu cysylltiadau fel sydd wedi digwydd mewn awdurdodau lleol eraill am fod y ffigur ar gyfer cyfanswm yr atgyfeiriadau/cysylltiadau yn cynnwys dyblygiadau, tra bod y ffigur terfynol, sef 24, yn ymwneud ag atgyfeiriadau unigryw.
8. Er eu bod ond yn cwmpasu tri awdurdod, mae data ffigurau'r chwiliad cychwynnol yn awgrymu bod achosion a atgyfeirir at wasanaethau plant yn cwmpasu, ar hyn o bryd, amrywiaeth o bryderon y tu allan i gwmpas trais corfforol, ac yn enwedig y tu allan i gwmpas cosbi plant yn gorfforol. Yn seiliedig ar y ffigurau ar gyfer y ddau awdurdod lleol cyntaf, mae atgyfeiriadau at Wasanaethau Plant sy'n ymwneud â chosbi corfforol gan rieni yn cyfrif am rhwng 2.5 a 6.7 y cant o gyfanswm yr achosion a gofnodwyd yn erbyn plant yn yr awdurdodau hyn.

Cafeatau

9. Mae'r gwaith dadansoddi wedi dangos bod atgyfeiriadau a gofnodir ar systemau gwasanaethau cymdeithasol yn debygol o gynnwys llawer iawn o ddyblygu, am fod yn rhaid i bob cyswllt unigol â gwasanaethau plant gael ei glonio yn erbyn pob plentyn y gellir ystyried ei fod 'mewn perygl' oherwydd y sefyllfa (megis

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

brodyr neu chwiorydd), yn hytrach na'i gofnodi yn erbyn y dioddefwyr yn yr adroddiadau yn unig. Mae'r gwaith dadansoddi ym Mhowys yn awgrymu ei bod yn bosibl bod bron i ddau o bob tri o'r atgyfeiriadau sy'n cynnwys geiriau sy'n ymwneud â chosb gorfforol yn atgyfeiriadau dyblygedig yn erbyn brodyr neu chwiorydd.

10. At hynny, nododd yr ymarfer hwn nifer o heriau a all effeithio ar ddibynadwyedd y canfyddiadau. Mae pob un o'r timau Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio prosesau a systemau cyfrifiadurol yn wahanol i gasglu eu data. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y defnyddir y maes 'rheswm dros atgyfeirio', sy'n cynnwys y testun a chwiliwyd fel rhan o'r chwiliad geiriau allweddol. Yn yr un modd, er bod yr archwiliad llaw wedi helpu i nodi'r gyfran debygol o atgyfeiriadau perthnasol, nid yw'n ddull manwl gywir o nodi nifer wirioneddol yr achosion perthnasol. Mae'r rhesymau hyn yn cynyddu'r ansicrwydd ynglŷn â'r ffigurau amcangyfrifedig a ddarparwyd ymhellach.
11. Mae trafodaethau ag arweinwyr data mewn timau Gwasanaethau Plant eraill fel rhan o'r gwaith hwn a gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddata a Monitro yn awgrymu bod y cafeatau hyn, ymhlith eraill, yn debygol iawn o fod yn gymwys i ddata gwasanaethau plant a gofnodir ledled Cymru.

Canlyniad

12. Oherwydd y cafeatau uchod, a'r heriau sy'n gysylltiedig â chasglu data cyson gan amrywiaeth ehangach o awdurdodau, nid yw'n bosibl allosod y ffigurau hyn er mwyn amcangyfrif nifer yr atgyfeiriadau presennol ar lefel Cymru gyfan. Fel rhan o'r gwaith gweithredu, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddata a Monitro wedi'i sefydlu er mwyn datblygu dull o gasglu ffigurau sylfaenol a ffigurau ôl-weithredu i fonitro'r effaith ar Wasanaethau Cymdeithasol.

Y gydberthynas rhwng ffigurau Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu

13. Er y gellir disgwyl y byddai niferoedd yr Heddlu yn adlewyrchu niferoedd gwasanaethau cymdeithasol, efallai nad felly y bydd hi.
14. Y prif reswm dros hyn yw'r ffordd y caiff data eu cofnodi yn yr heddlu o gymharu â gwasanaethau cymdeithasol. Mae ffigurau'r heddlu ond yn cofnodi pob galwad ffôn/digwyddiad fel un drosedd, waeth faint o blant sydd mewn perygl o ganlyniad i'r digwyddiad hwnnw. Fodd bynnag, câi'r un digwyddiad, pan gaiff ei atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol, ei gofnodi'n unigol yn erbyn pob plentyn yn y teulu.